Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.6 Ewrop

Nod y dudalen wybodaeth hon yw:

- darparu gwybodaeth am raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a fydd ar gael yng Nghymru yn ystod 2007 - 2013;
- darparu cyfarwyddyd ar y broses gwneud cais; a
- chyfeirio at ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth bellach.

Trosolwg o raglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru 2007 - 2013

Mae'r Cronfeydd Strwythurol yn dod o'r Undeb Ewropeaidd yn uniongyrchol at Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd i hyrwyddo twf economaidd, cyflogaeth a datblygu sgiliau. Mae'r rhanbarthau gyda chynnyrch mewnwladol crynswth (GDP) llai na 75% o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd yn gymwys ar gyfer lefel uchaf cymorth datblygu, a elwir yn ariannu Cydgyfeirio.

Gweithredir y rhaglenni canlynol mewn rhai ardaloedd cymwys yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2007-2013:

Cydgyfeirio

Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys ar gyfer lefel uchaf y gefnogaeth o'r Undeb Ewropeaidd (£1.4 biliwn), a elwir yn ariannu Cydgyfeirio, sy'n olynu'r rhaglen Amcan Un. Mae gweithredoedd yn y 15 awdurdod unedol canlynol yn gymwys ar gyfer ariannu: Sir Fôn, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tydfil, Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen.

Mae'r rhaglenni Cydgyfeirio yn cynnwys ariannu oddi wrth ddwy wahanol Gronfa Strwythurol Ewropeaidd: **y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop** (ERDF) a'r **Gronfa Gymdeithasol Ewrop** (ESF). Bydd tua £856 miliwn o gronfeydd yr ERDF yn cael eu sianelu drwy Lywodraeth Cymru i helpu cynyddu trawsnewid y rhanbarth i economi cynaliadwy a chystadleuol drwy fuddsoddi yn yr economi gwybodaeth a rhoi cymorth i fusnesau cyfredol a newydd dyfu. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar adfywio cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan ymgodymu â newid yn yr hinsawdd a gwella cludiant. Defnyddir tua £570 miliwn o'r ESF i ymgodymu ag anweithgarwch economaidd, cynyddu sgiliau a chyflogaeth.

Gyda'i gilydd, bydd cyfanswm yr arian yn fwy na £1.4 biliwn o wario Cydgyfeirio, a fydd, gydag ariannu cyfatebol, yn gyrru buddsoddiad llawn o £3.2 biliwn yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Canllaw newydd WEFO ar Gaffael
Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cyhoeddi canllaw diwygiedig ar Nawdd, Partneriaeth a Chaffael i'w ddefnyddio gyda phrosiectau a gyllidwyd gan Gydgyfeirio. Mae'r canllaw yn cynnig cyngor i ddarpar noddwyr, cyllidwyr arian cyfatebol a rhanddeiliaid sydd â diddordeb, fel eu bod ag arweiniad clir yn y tri maes pwnc.

Gellir cael copi cyfan o'r canllaw diwygiedig ar y ddolen ganlynol:
http://wefo.wales.gov.uk/applyingforfunding/submitting/guidance/sponsorship/?skip=1&lang=cy

Mae fersiynau newydd o'r Fframweithiau Strategaeth yn awr ar gael
Dan raglenni 2007-2013 mae 20 o Fframweithiau Strategol thematig acsy'n cael eu hyrwyddo'n ofodol wedi cael eu datblygu mewn partneriaethi helpu i ffurfio a chydbwyso'r rhaglenni.

Mae Fframweithiau Strategol yn canolbwyntio ar y mathau o ymyriadau sydd fwyaf tebygol o arwain at gyflawni Blaenoriaethau a Themâu'r Rhaglenni Gweithredol.

Mae'r fframweithiau wedi cael eu hadolygu yn ddiweddar, sydd wedi ystyried y newidiadau yn yr hinsawdd economaidd.

Gellir cael mynediad at y Fframweithiau Strategaeth diwygiedig yn:
http://wefo.wales.gov.uk/news/websiteupdates/100203newstrategicframeworks/?skip=1&lang=cy

Dyma **flaenoriaethau Cydgyfeirio ERDF** ar gyfer ariannu, dyraniadau ariannol dangosol a chyfraddau ymyriad.

Rhif blaenoriaeth	**Enw Blaenoriaeth**	**Dyraniad ariannol dangosol**	**Cyfradd ymyriad ar lefel blaenoriaeth**
1	Adeiladu'r economi ar sail gwybodaeth Thema 1: Adeiladu'r economi gwybodaeth Thema 2: Rhwydwaith mewnol TGCH a Gwybodaeth i bawb	€313,878,019 (£250,615,216)*	44.73%

2	Gwella Cystadlu Busnes Thema 1: Menter Thema 2: Cyllid busnes	€192,778,000 (£153,959,130)*	47.59%
3	Datblygu rhwydwaith mewnol strategol ar gyfer economi fodern Thema 1: Cludiant cynaliadwy Thema 2: Adfywiad cynaliadwy	€330,800,000 (£264,188,239)*	46%
4	Creu amgylchfyd busnes deniadol Thema 1: Ynni Thema 2: Addasu newid yn yr hinsawdd Thema 3: Amgylchfyd ar gyfer twf	€229, 900,000 (£183,624,301)*	45.74%
5	Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy Thema 1: Adfywiad cynaliadwy Thema 2: Datblygiad economaidd cymunedol	€158,000,019 (£126,196,794)*	50.64%
6	Cymorth technegol	€25,000,000 (£19,976,800)*	50%

* Seilir y gyfradd trosi ar 1 EUR = 0.798448 GBP; 1 GBP = 1.25201 EUR (www.xe.com, 27.08.08)

Dyma **flaenoriaethau Cydgyfeirio ESF** ar gyfer ariannu, dyraniadau ariannol dangosol a chyfraddau ymyriad.

Rhif blaenoriaeth	**Enw Blaenoriaeth**	**Dyraniad ariannol dangosol**	**Cyfradd ymyriad ar lefel blaenoriaeth**
1	Rhoi i bobl ifanc y sgiliau angenrheidiol ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol. Thema 1: Mynd i'r afael â thangyflawni Thema 2: Codi sgiliau a dyheadau	€164,929,806 (£131,793,291) *	54.46%
2	Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd Thema 1: Helpu pobl i gyflogaeth gynaliadwy Thema 2: Helpu pobl i aros mewn cyflogaeth	€286,810,932 (£229,186,935) *	55.19%

3	Gwella lefelau sgil a gwella gallu'r gweithlu i addasu Thema 1: Codi sail sgil y gweithlu Thema 2: Sgiliau ar gyfer economi gwybodaeth, sgiliau lefel uwch a systemau ar gyfer datblygu'r gweithlu Thema 3: Hybu cydraddoldeb hil ym maes cyflogaeth	€331,858,760 (£265,277,588) *	57.34%
4	Gwella gwasanaethau cyhoeddus - Creu'r Cysylltiadau Thema 1: Gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus drwy gydweithio'n fwy effeithiol Thema 2: Adeiladu gallu'r sector gwasanaethau cyhoeddus i draddodi gwasanaethau o ansawdd uwch	€32,985,962 (£26,367,953)*	50.77%
5	Cymorth technegol	€17,000,000 (£13,589,609)*	50%

Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol (RCE)

Nodir Dwyrain Cymru fel ardal Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol (RCE) a rhoddwyd i'r ardal gyfanswm o £93 miliwn mewn grant Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod rhaglennu nesaf. Mae'r rhaglen yn olynu'r rhaglenni Amcan 2 ac Amcan 3 2000 - 2006, a bydd yn ddaearyddol yn cynnwys saith ardal awdurdod lleol yn Nwyrain Cymru: Caerdydd, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Powys, Wrecsam a Bro Morgannwg.

Mae'r rhaglenni RCE yn cynnwys ariannu oddi wrth ddwy wahanol Gronfa Strwythurol Ewropeaidd: **y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop** (ERDF) a'r **Gronfa Gymdeithasol Ewrop** (ESF). Bydd tua £49 miliwn o gronfeydd yr ERDF yn cael eu sianelu drwy Lywodraeth Cymru i helpu parhau trawsnewid y rhanbarth yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, drwy helpu busnesau cyfredol a newydd dyfu. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar adfywio cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac ymgodymu â newid yn yr hinsawdd. Defnyddir tua £43 miliwn o'r ESF i ymgodymu ag anweithgarwch economaidd, cynyddu sgiliau a chyflogaeth. Gyda'i gilydd, bydd cyfanswm buddsoddiad y Rhaglenni tua £232 miliwn, gydag ariannu cyfatebol yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

Dyma **flaenoriaethau RCE ERDF** ar gyfer ariannu, dyraniadau ariannol dangosol a chyfraddau ymyriad.

Rhif blaenoriaeth	Enw Blaenoriaeth	Dyraniad ariannol dangosol	Cyfradd ymyriad ar lefel blaenoriaeth
1	Gwybodaeth ac arloesiad ar gyfer twf	€32,201,650 (£25,743,532)*	40%
2	Cystadleurwydd a thwf busnes	€14,076,400 (£11,253,344)*	40%
3	Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd	€14,076,000 (£11,253,344)*	39.99%
4	Adfywiad ar gyfer twf	€10,647,271 (£8,511,309)*	40%
6	Cymorth technegol	€1,450,000 (£1,159,136)*	50%

Dyma **flaenoriaethau RCE ESF** ar gyfer ariannu, dyraniadau ariannol dangosol a chyfraddau ymyriad.

Rhif blaenoriaeth	Enw Blaenoriaeth	Dyraniad ariannol dangosol	Cyfradd ymyriad ar lefel blaenoriaeth
1	Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd Thema 1: Helpu pobl i gyflogaeth gynaliadwy Thema 2: Helpu pobl i aros mewn cyflogaeth	€29,785,196 (£23,810,416)*	40%
2	Gwella lefelau sgil a gwella gallu'r gweithlu i addasu	€32,512,256 (£25,992,694)*	40%
3	Cymorth technegol	€1,300,000 (£1,039,315)*	50%

Cydweithio Tiriogaethol

Mae Menter Gymunedol INTERREG cyfredol wedi'i brif ffrydio i statws Amcan llawn ar gyfer Ariannu Strwythurol ol-2006. Mae'r Rhaglenni Amcan Cydweithio Tiriogaethol newydd yn cynnwys tri maes: **Cydweithio Trawsffiniol, Traws-genedlaethol a Rhyngranbarthol.**

Bydd gan Gymru ran yn y Rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol canlynol 2007 - 2013:

- **Iwerddon-Cymru - Rhaglen Cydweithio Trawsffiniol** sy'n cysylltu arfordir Gorllewin Cymru a de-ddwyrain Iwerddon (olynydd i'r Rhaglen Iwerddon/Cymru INTERREG IIIA cyfredol). Cyfanswm cyllid yr ERDF yw €52.7m (tua £42.1m *) gyda chyfradd ymyriad uchaf o 75% holl gostau'r prosiect. Am wybodaeth bellach, gweler: www.irelandwales.ie

- **Rhaglen Gogledd-Orllewin Ewrop**, sef cydweithio traws-genedlaethol sy'n cynnwys saith Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, y DU (mae Cymru gyfan yn gymwys), Iwerddon, Gwlad Belg, Lwcsembwrg ac ardaloedd Ffrainc, yr Almaen a'r Iseldiroedd (bydd hwn yn olynu'r Rhaglen Gogledd-Orllewin Ewrop INTERREG IIIB).

- **Rhaglen Gydweithio Draws-genedlaethol Ardal yr Iwerydd** sy'n cynnwys ardaloedd ar arfordir yr Iwerydd mewn pum Aelod-wladwriaeth yr UE, rhannau o'r DU (mae Cymru gyfan yn gymwys), Iwerddon, Portiwgal, a rhannau o Ffrainc a Sbaen (bydd hwn yn olynu'r Rhaglen Ofod Iwerydd INTERREG IIIB cyfredol).

- **Rhaglen gydweithio Rhyngranbarthol** ar draws yr UE sy'n gysylltiedig â chydweithio a rhwydweithiau rhyngranbarthol, ac sy'n trin yr EU27 yn ogystal â'r Swistir a Norwy (bydd hwn yn olynu'r rhaglen INTERREG IIIC cyfredol)

Am wybodaeth bellach ar y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, ewch at wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO): www.wefo.wales.gov.uk

Sut i wneud cais am arian?

Mae yna dri cham i ddatblygu a chyflwyno syniad eich prosiect i WEFO:

1. Ffurflen Syniadau'r Prosiect (PIF)

Mae yna gyfleuster ar wefan WEFO ar gyfer noddwyr prosiect posib i arddangos eu syniadau dan y fframwaith strategol perthnasol. Er nad yw hyn yn rhan o'r broses ffurfiol, y pwrpas yw annog ymgeiswyr posib i drafod cynigion gyda mudiadau, budd-ddeiliaid, partneriaid ac arianwyr cyfatebol eraill ac ati, a fyddai o bosib yn dangos diddordeb yn y syniad. Felly bydd angen i ymgeiswyr newydd edrych ar adran Syniadau Prosiect y

wefan i edrych ar syniadau prosiect eraill, yn ogystal ag arddangos eich syniad chi. Bydd hyn yn gymorth i chi rannu a thrafod eich prosiect gyda mudiadau, budd-ddeiliaid, partneriaid ac arianwyr cyfatebol eraill a allai ymddiddori ynddynt.

Mae hefyd yn bwysig i sicrhau fod y syniad yn cydweddu ag un o'r Fframweithiau Strategol a gynhyrchwyd i roi canllaw traddodi'r Rhaglenni, ac mae'r rhain ar gael i'w lawr lwytho o wefan WEFO. Gallwch drafod cydweddiad y Fframwaith gyda'r enwau cyswllt a nodwyd ar gyfer pob Fframwaith.

2. Datgan diddordeb (EOI)

Cam ffurfiol cyntaf y broses gwneud cais yw gofyn i gyflwyno datganiad diddordeb (EOI). Unwaith y bydd WEFO wedi derbyn eich cais, bydd swyddog datblygu prosiect yn cysylltu â chi i drafod cynigion a'ch arwain drwy gam cyntaf y broses gwneud cais, sef cyflwyniad ffurfiol y Datganiad Diddordeb (EOI). Bydd hyn yn cynnwys cofrestru gyda Gwasanaeth Ar-lein WEFO, y system ryngweithiol sy'n galluogi ymgeiswyr i gyflwyno, gweld a rheoli eu grantiau ar-lein yn ddiogel.

Yn dilyn cyflwyniad eich datganiad diddordeb, bydd WEFO yn gwneud asesiad cychwynnol yn ôl y meini prawf dewis a blaenoriaethu. Bydd hwn yn arwain at un o dri chanlyniad gan WEFO:

- symud y cynnig ymlaen i'r cam nesaf o asesiad llawn;
- ei ddal ar 'statws wrth gefn' yn dilyn gwybodaeth bellach neu ystyriaethau rheoli rhaglen ehangach; neu
- ei wrthod.

Bydd asesiad cadarnhaol yn arwain at yr ail gam - y cyfle i gyflwyno cynnig mwy manwl ar gyfer asesiad llawn gan WEFO. Noder na roddir cynnig grant yn ystod y cam yma.

3. Cynllunio busnes

Os gyrhaeddwch y cam yma yn y broses, gofynnir i chi gyflwyno Cynllun Busnes a Thraddodi mwy manwl. Bydd Swyddog Datblygu Prosiect WEFO yn gweithio gyda chi i eglurhau manylion y prosiect yn y cynllun traddodi ac adnabod unrhyw risgiau neu amodau a fydd eu hangen yn y cynllun. Nid yw dilyniant i'r cam yma yn golygu bod WEFO wedi penderfynu cefnogi'r prosiect. Gwneir y penderfyniad yna unwaith y bydd y cam yma wedi'i gwblhau.

Mae gwybodaeth a chyfarwyddyd pellach ar gael yn adran '*Gwneud cais am arian Ewropeaidd*' ar wefan WEFO parthed:

- Sicrhau arian UE - trosolwg y broses
- Rheolau drafft cymhwyster - Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru

- Cyfarwyddyd newydd ar orbenion yn rhaglenni 2007 - 2013
- Meini prawf dethol prosiectau a blaenoriaethu
- Cyfarwyddyd ar noddi, partneriaeth, caffaeliad a grantiau'r prosiect
- Cymorth gwladwriaethol
- Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd
- Themâu traws-doriadol
- Monitro, rheoli a systemau rheoli'r prosiect
- Cyfarwyddyd monitro a gwerthuso'r prosiect a'r rhaglen

Gweler: www.wefo.wales.gov.uk neu ffoniwch linell gymorth WEFO ar 0845 010 3355 neu anfonwch e-bost at: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk .

Pa gefnogaeth sydd ar gael i ymgeiswyr?

Mae cefnogaeth ar gael oddi wrth ystod o ffynonellau i fudiadau sydd â diddordeb i wneud cais am arian:

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)
Dylai ymgeiswyr fynd at wefan WEFO ar gyfer gwybodaeth gynhwysfawr am raglenni Ariannu Strwythurol: www.wefo.wales.gov.uk

Am ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â llinell gymorth WEFO ar 0845 010 3355 neu anfonwch e-bost at enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk

Os yw eich cwestiwn yn ymwneud â phrosiect penodol, dylid cysylltu â'r Swyddog Datblygu Prosiect WEFO; bydd y manylion ar wefan WEFO dan y fframwaith strategol perthnasol.

Llywodraeth Cymru
Dylid cysylltu â Chydlynwyr Fframwaith Strategol gydag unrhyw gwestiynau parthed gweddiad posib syniad y prosiect o fewn y fframwaith perthnasol.

Timau Ewropeaidd Gofodol (SETs)
Bydd y rhain yn chwarae rôl allweddol yng ngweithrediad y rhaglenni Cydgyfeirio a Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol 2007-2013. Eu pwrpas yw helpu hyrwyddo cydlyniad ac integreiddio strategol drwy roi cyngor, cefnogaeth a phartneriaeth ar lefel lleol a rhanbarthol, a thrwy'r rhyngweithiad gyda Chydlynwyr Fframwaith Thematig.

Y mudiadau sy'n rhan o'r SETs yw Llywodraeth Cymru, Adrannau'r Economi a Thrafnidiaeth (DE&T), ac Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS); Awdurdodau Lleol yng Nghymru; a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Mae manylion cyswllt y Gweithwyr SET ar wefan WEFO.

Cefnogir y prosiect hwn, yn rhannol, gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/07/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WCVA
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk